

Dyddiadur blwyddyn natur yn Tŷ Capel Bethel, Golan.

Dim ond edrych trwy'r ffenest y tŷ fe wel rhywyn gryn dipyn o natur yr ardd heb wlychu ei draed. A dyma yr ydym wedi bod yn ei wneud y flwyddyn olaf yma a chofnodi.

Cofiwch rydym wedi cofnodi beth sydd yn mynd ymlaen hefyd allan yn yr ardd ac wedi cael amser difyr tros ben yn gwneud hynny. Blwyddyn 2011 yw hi gyda llaw.

Rydym wedi cofnodi adar fwyaf ynghyd a gwyfynod a ddaliwyd yn y trapiau o bryd i'w gilydd.

Ambell i anifail bach yn galw heibio hefyd o bryd i'w gilydd.

Cyfeirnod map yr hen le yma rhag ofn eich bod eisiau cofnodi ydi SH533 416 neu ddigon agos i hynny beth bynnag

Ionawr 1af Eira tros pob man. Yr adar yn bwyta yn drwm rwan.

Ionawr 4ydd Aderyn y Tô gwyn yn dal hefo ni. Mae yn tua 4 oed rwan os mae'r un un ydi o. Drudwenod i lawr i'r hanner ers cyn y nadolig.

Ionawr 5ed Dim Llinos werdd yn dod i'r ardd i fwydo eleni clwy wedi eu trawo yn ol y son. Penfelen yn bwydo ar bwyd yr adar heddiw, 'roedd mewn cyflwr da iawn yn wahanol iawn i'r un fu yma y llynedd roedd honno a'r fin trengu rwyn siwr.

Ionawr 6ed Niwl a glaw mân ers dyddiau dim llawer i'w weld ond yr adar ar y bwyd yn ddyddiol.

Ionawr 7ed Gwneud 4 nyth i fynd i'r ferch yn Penrhyn.

Ionawr 10ed am wythnos gwneud a gosod blychau nythod yma a mynd a rhai i Talafon 11 i gyd.

Ionawr 17eg Adar tô yn cario i'r nythod o dan y bondo. 4 par. Y tywydd yn braf iawn rwan ers tro. Titws hefyd yn edrych ar un neu ddau o'r blychau.

Adar yn dechrau canu yn barod gobeithio na chant eu siomi hefo'r tywydd eto.

Ionawr 31in Glaw trwm yn y nôs a niwlog, hyn wedi pythefnos braf sych rhewllyd bron.

Chwefror 4ydd Tawel iawn wythnos yma. 13Eg o flychod wedi mynd allan erbyn heddiw.

Chwefror 9ed Clocell Fraith fwyaf ar y peli bwyd sydd ar wifren dal polun trydan yn yr ardd. [gwryw]

Chwefror 14eg Y saffrwm cyntaf allan yn yr ardd bach dan ffenest. Yr adar yn canu ei hochor hi rwan

Adar duon yn hedfan fel petha gwirion ar ol eu gilydd dyddia yma.

Chwefror 16eg Bronfraith a Brych y coed o gwmpas yr ardd yma.

Chwefror 18ed Aderyn du pigfelen yn canu i ben i ffwrdd hyd nes oedd yn dywyll bron.

Chwefror 19ed Iar Gwalch Glas ar ol adar yn y gwrych o flaen y tŷ pnawn yma. Chafodd o ddim chwaith tro yma. Rhoi dau flwch nythu i'r titw yn gefn y tŷ heddiw.

Chwefror 22in Y Barcyd coch yn hedfan yn uchel am Dolbenmaen. Yr adar yn bwydo yn drwm eto rwan. Gwynt ysgaf oer.

Chwefror 28in Yr adar wedi rafu bwyta llenwi pob yn ail ddydd rwan.

Mawrth 1af Cacwn cyntaf eleni yn yr ardd. Yn bwydo o'r saffrwm o flaen y tŷ.

Mawrth 2ail Bran yn nythu yn y goeden bin yn ardd Talafon.

Dyddiau hynod braf ond ambell gyfnod o wynt Dwyrain oer.

Mawrth 6ed Sylwi fod par o Fwncathod yn y coed yn weirglodd Capal. Heb nythu yno ers 4 blynedd rwan.

Mawrth 7ed Llug wedi marw yn drws stabal bore yma. Wedi rhewi a barugo neithiwr.

Mawrth 14eg Bwncath yn bwydo yn yr ardd, heb weld un yn yr ardd o'r blaen.

Mawrth 15ed Brain yn cario bwyd i'r nyth yn goeden Pin yn Talafon.

Mawrth 17eg Ambell aderyn mudol i'w weld yma ac acw rwan Tinwen y Garn yn Conwy Telor Penddu yn Pwllheli.

Mawrth 18ed Gwyddau Canada yn hedfan heibio yma lawer iawn eleni ddim yn eu gweld ffordd yma fel rheol.

Mawrth 22in Adar Tô yn eistedd ar eu nythod o dan y bondo..

Mawrth 23in Gweilch yn Glaslyn yn ol.

- Mawrth 24in Titw Tomos yn dyrnu gwifren y ffôn yn gefn y tŷ heddiw, “phone taping” Gareth Jones a'r wraig wedi bod yn cerdded yn Porth ysgaden heddiw ac wedi gweld dyfrgi mawr yn nofio yn y môr yno. Hefyd nythod i'w gweld ar hyd y creigiau Bilidowcars. Wedi anfon llun i mi.
- Mawrth 25in Mulfran tros y tŷ yma 6.30pm.
- Mawrth 26in Am dro ein dau i Porth Ysgaden a cherdded draw i Porth Gwylan gweld y canlynol 4 nyth Mulfran werdd. 2 Tinwen y Garn, 3 gwenol y glenydd, 1 nyth bran gwag. 3 cor-hedydd y graig, 2 wylan y glenydd, 6 Gwylan y penwaig, Yd frain, a 2 sigl di gwt.
- Ebrill 7ed Nico ar fwyd yr adar, galw heibio fel arfer debyg.
- Ebrill 8ed Llyffant yn crawcian yn y ffôs o flaen y tŷ. 3 wy gan Walch y pysgod.
- Ebrill 9ed Gweld Bod Tinwen gwryw yn hedfan am Cwmystradllyn. Gloyn gwyn mawr yn yr ardd cyntaf eleni, Gwenyn meirch a cacynod o gwmpas rwan. Gweld dwy wenol yn Fron Goch ger y Bala heno.
- Ebrill 11eg Gweld y wenol gyntaf yma eleni hedfan heibio dim yn aros.
- Ebrill 13eg Titw Mawr yn edrych ar y ddau flwch nythu yn cefn Tŷ, i mewn ac allan o'r ddau am beth amser.
- Ebrill 14eg Llinos werdd ar y bwrdd adar yn y cefn cyntaf ers tros flwyddyn. Y ddau ditw mawr yn y nythod ac aros yn un am spel go hir. [caru debig]
- Ebrill 15ed Par o Frych y coed yn nythu yn y domen brigau yn waelod yr ardd.
- Ebrill 16eg Am dro i Uwch mynydd ein dau. Gweld digon o wenoliaid glenydd heddiw o Uwchmynydd i Bwllheli. Hebog Tramor yn hela uwchben Llanbedrog yn y pnawn.
- Ebrill 18ed Titw mawr yn hel i'r blwch nythu yn cefn tŷ.
- Ebrill 19eg Gloyn blaen oren cyntaf yn yr ardd.
- Ebrill 23in Clywed y gôg am tro cyntaf yn canu draw yn Rhyddros a Golan.
- Mai 23in Gwyntoedd cryf dyddia yma. 6 Durtur dorchog yn yr ardd heddiw. Cyw Brych y coed o gwmpas yr ardd.
- Mai 24in Titw mawr heb dderbyn y nyth yn cefn wedi cario iddo yn arw hefyd. 2 gwy Brych y coed yn yr ardd heddiw.
- Mai 25in 8 o wyddau Canada yn hedfan heibio. 2 Nico yn yr ardd. Cael llun.
- Mai 27in 4 Nico yma heddiw. Gwenoliaid yn araf gyraedd. Cael gwybodaeth gan led Bbc fod nifer anghyffredin yn Criccieth ddoe.
- Mehefin 1af Cynydd aruthrol yn y Piod o gwmpas lle yma tua 15eg o gwmpas yn gwneud twrw.
- Mehefin 7ed Dafad wedi marw yn weirglodd Capal, Brain , Piod gwylanod, 2 Gefnddu. Yna daeth y Bwncath a chymryd y carcass trosodd am beth amser. Y Barcud coch yn hofran uwch ben yn disgwyl glanio ar ol i'r Bwncath gael llond bol. Ond ni arhosodd ddim mwy na 5 munud cwta.
- Mehefin 24in Arfona yn gweld 2 ysgyfarnog yn weirglodd capal 7.55am galw arnaf i'w gweld. Heb weld rhai ers tro byd rwan. Neis eu gweld.
- Gorffennaf 1af Gwalch glas o gwmpas ers dyddia rwan ac wedi cael 3neu 4 aderyn tŷ i mi ei weld.
- Gorffennaf 2il Tri Gwalch y pysgod wedi eu gweld hefo'i gilydd uwchben Llyn Dubach bont gan Gwyn Williams, Rhuthun am 7.55am ar ei ffordd i Criccieth.
- Gorffennaf 12ed Wedi rhoi trap gwyfynod allan neithiwr wedi cael benthg un gan Aled Pendryn. 1 Bidog yr ysgwydd. 2 Crynwr Amrywiol. 1 Forch adain. 1 Gwyfyn gwensgod cyffredin.
- Gorffennaf 13eg Gwyfynod yn y trap. 1 Gwyfyn yr hen wrach. 2 Is adain felen fawr. 2 Ton rubanog. 1 troedwas gwensgod. Wensgod smotyn gwyn-wensgod rhydlyd, Rhisglyn y cen neu corach cleisiog.
- Gorffennaf 15ed Cyw Bronfraith yn yr ardd.
- Gorffennaf 20ed Trap gwyfynod, 1 Gwyfyn corn carw. 2 carpiog y derw. 1 Gwelltyn rhesog.
- Gorffennaf 22in Yn y trap gwyfynod neithiwr. 4 Carpiog y Derw. 4 Corn carw. 1 troedwas

- cyffredin, 6 Is adain felen. 1 Cleisiog gwyrdd, 10 micro, 6 gwyfyn y gwair.
Iar aderyn du yn dal i gario i nyth [bwyd] Cnocell fraith yma.
- Gorffennaf 27 Yn trap gwyfynod neithiwr 10 macros, 1 gwyrdd mawr, 1 brychan cyffredin
1 pwtyn bysedd y cwn. 1 carpiog y derw. 2 gorn carw. 4 gwelltog.
- Awst 2il Cynydd yn y Cigfrain sydd o gwmpas mae oddeutu 6 i 8 o gwmpas yma rwan yn
ddyddiol.. Cynydd hefyd yn y fran dyddyn ar Yd fran.
Niferoedd Jack y do wedi mynd lawr dim un yn nythu yma eleni ond eto mae
niferoedd mawr yn hedfan trosodd am Dolbenmaen pob nôs.
- Awst 9 ed Wedi bod oddi yma yn yr Eisteddfod ac fe roedd yr adar tô wedi ymfudo hefyd
Roedd yn 12ed arnynt yn dechrau dod yn ol.
- Awst 10ed Ysgyfarnog yn Weirglodd Capal.
- Awst 16eg Adar to yn ol yn fflud o tua 70, Ji-binc 8, Titw tomos 4 i 6, robin 1, Llwyd y gwrych
tua 5. 3 Durtur dorchog un yn nythu yn y goeden Leilandii yn yer ardd.
Bwyd yn diflanu yn handi iawn dyddia yma.
- Awst 18ed Durtur dorchog yn cario defnydd nythu i'r goeden. Dryw bach yn dangos ei hyn.
- Awst 22in Yn y Trap gwyfynod. 2 Melyn Penfelyn. 1 Carpiog lloerenog, 2 Brychan cyffredin
1 Is adain felen dywyll, 2 wyfyn corn carw. 3 gweirwyfyn y gerddi. 1 Llwywyfyn
Canibalaidd.
- Awst 23 Gwyfynod a ddaeth i mewn i'r llofft gan fod y ffenest yn agored.
1 Pali brown. 2 brychan cyffredin. 1 melyn y drain.
- Awst 25in Gwyfyn yn y bath, 1 Fflam ysgwydd hardd iawn hefyd.
- Awst 27in Gwalch glas yn trio ei orau cael pryd o fwyd yn yr ardd ond yn methu.
- Awst 30in Gwyfynod heddiw Gwladwr gwridog. Wainscot dywyll, a Esgynwr Gorffennaf.
Brychan y gerddi yn y ty heno..
- Medi 1af Yn y Trap gwyfynod maen croesog. Melyn yr ynn, gwladwr sidrog, Is adain felen
fawr, gwensgod bychan a gwain bryf. 10 o wyfynod i gyd.
- Medi 4ydd Gwenoliaid yn gadael yr ardal rhai ddim ond rhyw 3 i 4 diwrnod allan o'r nyth.
- Medi 13eg Carlwm yn yr ardd o flaen tŷ.
- Medi 15ed Iar Gwalch glas yn dal Durtur dorchog o flaen ffenest a honno yn eistedd ar ei nyth
hefyd.
- Medi 19eg Wedi cael plastig newydd ar flaen y tŷ dyna ddiwedd ar nythu y deryn tô.
Pnawn dau dderyn tô yn mynd i mewn o dan y plastig “ drws ffrynt newydd Hy!”
- Medi 21in Carlwm yn yr ardd.
- Medi 23in Ydair Durtur dorchog yn ol gyda'i gilydd mae'n rhaid fod y gwalch wedi gollwng yr
un a ddaliwyd wythnos yn ol ar ol mynd o'm golwg i .
- Medi 24in Ambell wenol yn hedfan heibio o hyd.
- Medi 28in Gweld Cnocell werdd ar ffordd Tŷ Cerrig nepell o Rhoslan wrth giat Muriau Mawr.
- Medi 29in Trap gwyfynod. 1 Gemfforch Arian. 2 Gweir Wyfyn y gerddi. 3 Gwensgod gyffredin.
1 Carped y gerddi, 3 melyn yr ynn. 4 micro. 1 Esgynwr Gorffennaf.
- Hydref 3ydd Dal Gemfforch arian yn yr ardd bore yma yn hedfan.
- Hydref 4ydd Gweld 2 wenol y bondo ar ben ffordd Nasareth 3.15pm.
- Hydref 16eg Wenci yn galw heibio.
- Hydref 7ed Bronwen o flaen tŷ hefo llygoden yn ei cheg, rhoi y llgoden yn y wal a dod allan a'i
gaddo hi i ni ein dau. 5Pm Iar gwalch glas yn y llwyn o flaen tŷ ac yn sydyn daeth y
fronwen o rhywle a dechrau dringo'r llwyn am y Gwalch ffliodd hwnnw i ben y giat ac
i ffwrdd a fo i lawr y caeau. Adar mân ddim wedi bwyta dim heddiw bron .
“Ysgwn i pam”?
- Hydref 8ed Adar tô Ji-binca titws yn bwyta yn gynnar iawn bore yma cyn i'r Gwalch godi debyg.
- Hydref 10ed Adar tô wedi ymfudo eto ond nid yn bell i siediau Garnedd Hir gan fod y gwarheg
wedi eu rhoi i mewn rwan ac yn cael bwyd yno. Titwod yn dal i fwyta hefyd.
- Hydref 12ed Gweld 4 wenol y bondo ar ffordd Penamser i Tremadog bore yma.
11.40am Barcud coch o gwmpas heddiw.

- Hydref 14eg Haid fawr o Coch dan adain o gwmpas y llwyni heddiw ond hedfan tua'r de wnaethont.
- Hydref 15ed Haid o tua 100 Socod Eira o gwmpas heddiw fel chwain yn yr ardd yma.
- Hydref 19eg 2 giach bach gyda clawdd yr ardd yn y ffôs.
- Hydref 22in Haid fechan o Llinos werdd wedi glanio yma o rhywle.
- Hydref 24in Barcud coch yma yn gynnar iawn bore yma bron cyn iddi ddyddio yn iawn.
- Hydref 26in Tylluan wen ar ben plyn rhyw 50can llath o'r ardd yma heno. Cyntaf ers blynyddoedd
- Hydref 27in Drydywod wedi cynyddu yn arw y ddwy flynedd ddiwethaf yma yn ol beth sydd i'w gweld o gwmpas lle yma. Heb wedl Coch dan adain na Socan ers dyddiau lawer .
- Hydref 28in Adar mân yn bwyta yn drwm iawn rwan. 6 Durtur yma rwan.
- Tachwedd 3ydd Bore yma gweld Pioden yn cario rhywbeth tebyg i neidar wair yn ei ffîg posib mae Brigyn oedd o. Adar y Tô hefyd yn cario defnydd i'w nythod dan y bondo.
- Tachwedd 4ydd Cyfrais 4 Durtur dorchog yn yr ardd ac fe roedd 8 arall ar y ffordd o flaen y giat. Y cyfrif mwya i mi ei gael yma er 40 mlynedd. Dwy haid fawr iawn o ddrudrws i fyny yma bore yma fel roedd yn goleuo. Rhai canoedd i gyd.
- Tachwedd 16eg 10 Durtur Dorchog yn bwyta yn yr ardd o flaen tŷ un yn trio hel y gweddill oddi yma.
- Tachwedd 19eg 9 neu 10 Durtur yma heddiw.
- Tachwedd 21in Yr adar yn bwyta llond tube mawr o hadau yn ddyddiol rwan.
- Tachwedd 22in Brenhines gwenynen feirch yn stabal pnawn un fawr iawn. Haid anferth o ddrudwy yn glano ar goed ynn yn Hafod Wen ac yn codi yn sydyn nes roedd y coed yn ysgwyd am funud neu ddau wedyn fel tae yn chwythu yn galed.
- Rhagfyr 4ydd 8 Durtur dorchog yn bwydo bore yma. Bwyd yn diflanu yn gyflym dyddiau yma. Sachad mawr yn costio £25 rwan yn Port.

Wel mae bron yn ddiwedd blwyddyn arall, tebyg na welaf fawr o ddim o hyn i ddiwedd y mis ond os gwelaf rhywbeth allan o'r cyffredin byddaf yn siwr o'i gofnodi a gadael i chwi wybod.

**Tom ac Arfona
Tŷ Capel Bethel
Golan**